
# Ymgynghoriad Cenedlaethol ar Gyfranogaeth

Crynodeb 2021/22



brook

## Beth wnaeth Brook?

Roedd Brook eisiau deall profiadau bechgyn a dynion ifanc wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd rhyw a lles ar-lein. Roedd Brook eisiau gwybod am y dewisiadau, yr opsiynau a'r mynediad a oedd gan fechgyn a dynion ifanc i'r gwasanaethau hyn.

Cynhaliodd Brook ymgynghoriad cenedlaethol i glywed gan fechgyn a dynion ifanc. Roedd Brook eisiau ateb y cwestiwn hwn:

'Pa ran sydd gan wasanaethau ar-lein i'w chwarae i wella mynediad i wasanaethau iechyd rhyw i fechgyn/dynion ifanc?'

## Pam wnaeth Brook hyn?

Fe wnaeth Brook gynnal yr ymchwil hwn oherwydd:

- Mae'n bwysig i Brook roi i bobl ifanc y cyfle i siapio a chyd-gynhyrchu ei wasanaethau. Dyma un o amcanion strategol Brook sef buddsoddi yn sgiliau a gwybodaeth pobl ifanc.

- Roedd Brook eisiau gwybod a oedd unrhyw beth yn rhwystro bechgyn a dynion ifanc yn enwedig rhag cael mynediad i wasanaethau iechyd rhyw digidol.

- Mae Brook eisiau i bob person ifanc deimlo ei fod yn gallu defnyddio ei wasanaethau. Fodd bynnag, niferoedd bychan o fechgyn a dynion ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau Brook (dyma 15% o'n defnyddwyr gwasanaethau er 2017/18). Ers i Brook lansio ei wasanaethau profion STI i'w gwneud adref ym mis Mawrth 2022, 23% yn unig o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth sy'n fechgyn ac yn ddynion ifanc. Roeddem eisiau deall pam.

- Mae Tîm Cyfranogaeth Brook wedi ei chael yn anodd clywed gan fechgyn a dynion ifanc wrth ddatblygu gwasanaethau. Roedd yr ymgynghoriad cenedlaethol yn gyfle i glywed gan fechgyn a dynion ifanc a deall sut allen ni wella mynediad i wasanaethau iechyd rhyw a'u cynnwys nhw yn ein gwaith.

## Sut wnaeth Brook hyn?

Fe wnaeth Brook gynnal 5 o grwpiau ffocws i glywed gan fechgyn a dynion ifanc. Cawsant eu cynnal ar-lein ac wyneb yn wyneb. Fe wnaeth Brook wahodd amrywiaeth eang o fechgyn a dynion ifanc i fynychu'r grwpiau ffocws. Fe wnaeth 31 o bobl ifanc gofrestru ar gyfer y grwpiau ffocws, ond dim ond 24 wnaeth fynychu. Roedd y 24 o fechgyn a dynion ifanc yn 15-19 oed ac yn byw ar draws Cymru a Lloegr.

Roedd gan y bobl ifanc wahanol brofiadau bywyd, gan gynnwys ceiswyr lloches/ ffoaduriaid ifanc (8), pobl ifanc mewn tai â chymorth (3), pobl ifanc mewn ysgolion annibynnol (7), a phobl ifanc mewn colegau, prifysgolion neu mewn gwaith (6). Dywedodd un person ifanc fod ganddo awtistiaeth, ac roedd gan un arall anawsterau clywed.

## Beth wnaeth Brook ei ganfod?

Dywedodd y bechgyn a'r dynion ifanc wrth Brook am y gwahanol bethau a oedd yn eu rhwystro rhag defnyddio gwasanaethau rhyw ar-lein. Roedd y rhain yn cynnwys cywilydd a stigma a phryderon ynglŷn â thechnoleg, (fel cadw eu data yn ddiogel).

Gofynnwyd i'r grwpiau: beth fyddai'n gwneud iddynt ddewis gwasanaeth ar-lein yn hytrach na gwasanaeth wyneb yn wyneb? Fe wnaethant ddweud eu bod yn gallu bod yn fwy hwylus a chyfrinachol.

Dywedodd y bobl ifanc fod yna ffyrdd gwahanol y gellid dweud wrthynt am y gwasanaethau ar-lein hyn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Platfformau'r cyfryngau cymdeithasol (fel Tik Tok, Instagram, Snapchat, YouTube, Twitter)
- Gwefannau siopa
- Hysbysebion Spotify
- Platfformau gemau

Fe wnaethant ddweud eu bod eisiau gwybodaeth a oedd yn ddoniol, yn hygyrch, yn addysgiadol, a ddim yn codi ofn nac yn fygythiol. Bydden nhw'n hoffi gweld pobl ifanc eraill yn rhannu'r wybodaeth hon, gan gynnwys storïau am bobl ifanc eraill yn defnyddio'r gwasanaethau.

## Sut gallai gwasanaethau iechyd rhywiol bod yn fwy hygyrch i fechgyn a dynion ifanc?

Mae Brook yn meddwl y gallai'r canlynol helpu bechgyn a dynion ifanc i ddefnyddio gwasanaethau iechyd rhyw ar-lein:

- Normaleiddio'r syniad bod gwasanaethau iechyd rhyw wedi'u bwriadu ar gyfer pob rhyw.
- Gwneud negeseuon am wasanaethau iechyd rhyw yn fwy cynhwysol a hygyrch er mwyn helpu bechgyn a dynion ifanc i feddwl am iechyd rhyw mewn goleuni cadarnhaol.
- Tawelu meddwl bechgyn a dynion ifanc fod gwasanaethau ar-lein yn ddiogel a chyfrinachol.
- Annog bechgyn a dynion ifanc i ddefnyddio cefnogaeth iechyd rhyw mewn ffordd ataliol. Dywedodd rhai o'r bobl ifanc wrthym y bydden nhw'n mynd pe byddai ganddynt symptomau, ond na fyddent o bosibl yn mynd am archwiliad arferol.

## Beth fydd Brook yn ei wneud nesaf?

- Bydd Brook yn defnyddio safbwyntiau'r bobl ifanc wrth iddo ddylunio a datblygu ei 'Ddrws Ffrynt Digidol'. Dyma lle mae pobl ifanc yn cael gafael ar wasanaethau iechyd rhyw ar-lein gan Brook.
- Bydd Brook yn ystyried sut all y canfyddiadau hyn effeithio ar wasanaethau iechyd rhyw yng Nghymru.
- Bydd Brook yn ystyried sut all ddefnyddio safbwyntiau bechgyn a dynion ifanc pan fyddant yn siarad â phenderfynwyr ac yn cyflwyno bidiau i redeg gwasanaethau mewn gwahanol rannau o'r wlad.
- Bydd tîm Cyfranogaeth Brook yn gweithio gyda thimau eraill Brook (gan gynnwys y tîm addysg, y tîm digidol, y tîm clinigol a'r tîm cyfathrebu) i ystyried sut mae pobl ifanc y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gallu defnyddio gwasanaethau ac adnoddau Brook.

### Hoffem ddweud 'Diolch yn fawr!' i'r holl bobl ifanc am gymryd rhan yn y grwpiau ffocws ac am rannu eu safbwyntiau gyda Brook.

### Os hoffech gymryd rhan neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad, cysylltwch â participation@brook.org.uk



brook.org.uk

brook

@BrookCharity /BrookCharityYP /Brook @Brook_SexPositive

Registered charity number 703015